

## Enw'r corff: Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol drwy rwydwaith genedlaethol o gylchoedd meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg.

Sefydlwyd Mudiad Meithrin ym 1971. Ein prif nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn hefyd ei bod yn bwysig sicrhau cyfle i bob plentyn elwa o brofiadau a gweithgareddau blynyddoedd cynnar yn ei gymuned leol.

Erbyn hyn, mae yna 501 o gylchoedd meithrin yn cynnig sesiynau gofal ac addysg ddyddiol ar gyfer plant 2 - 5 mlwydd oed a 49 meithrinfa dydd yn darparu gofal dydd llawn i blant ar draws Cymru. Mae 292 o gylchoedd Ti a Fi ledled Cymru sy'n cynnig cyfle gwych i blant o enedigaeth hyd at oed ysgol a'u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu ac i rannu profiadau gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig. Mae'r gwasanaethau yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i oddeutu 19,000 o blant bob wythnos.

Mae 145 grŵp 'Cymraeg i Blant', sydd yn annog rhieni i gymryd y camau cyntaf tuag at gyflwyno'r Gymraeg i'w plant yn cwrdd mewn lleoliadau ar draws Cymru. Ers Ebrill 2016, mae 817 o rieni ac 860 plentyn wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn.

O ganlyniad, rydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd o amryw o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd. Rydym yn cydweithio gyda'r asiantaeth *Dechrau'n Deg* i ddarparu cyfleoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a gyda'r awdurdodau addysg leol i gynnig llefydd addysg rhan amser i blant 3 oed yn eu cymuned leol.

Yn ogystal, mae'r is-gwmni Cam wrth Gam, yn darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i ennill cymwysterau blynyddoedd cynnar. Gwnaed hyn drwy gyd-weithio ag ysgolion uwchradd i ddarparu cyrsiau i ddisgyblion ysgol, a thrwy'r cynlluniau hyfforddi cenedlaethol. Darperir cyrsiau hyfforddi yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle gan rwydwaith o diwtoriaid, aseswyr a dilyswyr mewnol ledled Cymru.

Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft hybu ymarfer da, hyfforddiant staff a chyswllt ag awdurdodau Lleol. Yn ogystal, mae'r Mudiad yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chynngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl, yn staff cenedlaethol a sirol ac mewn meithrinfeydd dydd, gyda 2000 o staff ychwanegol yn gweithio yn y cylchoedd ei hunain.

**Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Hoffwn glywed yn arbennig am y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff.**

Nod Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Croesawn felly dyfodiad y gyfundrefn safonau sydd yn cynnig cyfleoedd i osod trefn gadarn a

chlir ar gyfer cynllunio i sicrhau dyfodol a defnydd y Gymraeg. Serch hynny, nodwn nad ydy effaith gweithredu'r gyfundrefn safonau eto i'w weld yn glir ar lawr gwlad.

Nodwn nad ydy pob un o asiantaethau'r sector gyhoeddus eto wedi derbyn hysbysiadau cydymffurfio, gan gynnwys Byrddau Iechyd ledled Cymru. Nodwn mai'r byrddau iechyd sydd yn gyfrifol am nifer o'r gwasanaethau prif ffrwd a ddarperir i deuluoedd ifainc megis bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd, a bod rôl bwysig gan y gweithwyr hyn mewn cefnogi a rhaedru gwybodaeth i deuluoedd yn y dyddiau cynnar. Gwelwn bwysigrwydd y gwasanaethau hyn yn cynyddu wrth i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn polisïau a strategaethau iechyd yn y blynyddoedd cynnar.

Pryderwn fod geirio hysbysiadau cydymffurfio asiantaethau sy'n gweithio ar draws y DU i nodi bod angen sicrhau darparu 'gwybodaeth ar gyfer Cymru yn unig' yn Gymraeg yn golygu na fydd sicrwydd y bydd yr holl ddogfennau a gwybodaeth sydd yn berthnasol i Gymru, a ddarperir gan asiantaethau megis swyddfa'r comisiynydd Gwybodaeth, ar gael yn Gymraeg gan ei fod hefyd yn berthnasol i wledydd eraill y DU.

### **Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r balans yn gywir?**

Nodwn fod pwyslais ar rôl Comisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod sefydlu wedi bod ar ddatblygu Safonau'r Gymraeg yn dilyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cydnabuwn rôl hanfodol bwysig y gwaith rheoleiddio hwn i osod sylfaeni clir a chadarn i ddefnydd gwasanaethau cyfrwng Gymraeg ar draws Cymru.

Nodwn yr angen i sicrhau bod deddfwriaeth ar draws y meysydd datganoledig, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cydnabod anghenion penodol o ran y Gymraeg. Byddai hyn yn sicrhau ystyriaeth i ac adlewyrchiad o anghenion penodol gwlad ddwyieithog ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.

Serch hynny, nodwn fod yna orddibyniaeth ar Safonau'r Gymraeg yn medru codi mewn deddfwriaethau newydd. Nodwn fod y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft yn cyfeirio at ddyletswyddau a osodwyd yn dilyn gweithredu Safonau'r Gymraeg a'r hysbysiadau cydymffurfio, er nad ydy'r safonau a osodwyd hyd yn hyn ar awdurdodau lleol yn cyfeirio'n benodol at ddarparu cymorth dysgu ychwanegol, ac nid oes hysbysiadau cydymffurfio ar y byrddau iechyd hyd yma. Gwelir felly angen i sicrhau bod y swyddogaethau rheoleiddio hyn yn parhau ac yn treiddio i bob agwedd o waith asiantaethau statudol.

Mae'n amlwg hefyd fod dal i fod rhai agweddau o wasanaethau a gaiff eu darparu i blant ifanc a'u teuluoedd gan awdurdodau lleol yn parhau i fod y tu allan i faes gorchwyl y Safonau. Cyfeiriwn yn benodol at blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r safonau o osodwyd ar awdurdodau lleol yn unol a mesur y Gymraeg 2011 yn cyfeirio yn benodol at ddarparu cymorth dysgu ychwanegol. Ni fu unrhyw ymdrechion chwaith i osod safonau ar gyfrif llywodraethau ysgolion. Felly fel y cydnabuwyd gan Comisiynydd y Gymraeg ei hun nid yw " Mesur y Gymraeg 2011 yn cynnig un llwybr clir y galliasai unigolion ei ddilyn bob amser er mwyn dwyn

sefydliadau perthnasol yn atebol a fethu a darparu cymorth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg”<sup>1</sup>

Er bod y gwaith rheoleiddio hwn yn angenrheidiol, cynigiwn yr angen i ddatblygu elfennau hyrwyddo Comisiynydd y Gymraeg yn fwy amlwg yn y dyfodol. Gwelwn gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol o'r gwasanaethau y mae disgwyl i'r gwahanol sectorau eu cynnig wedi iddynt dderbyn yr hysbysiadau cydymffurfio.

Nodwn fod nifer o ymgyrchoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. Cymraeg a Chymraeg i Blant, eisoes yn cael eu cynnal a'u harwain gan Lywodraeth Cymru. Nodwn yr angen i barhau i hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn ystod eang o sefyllfaoedd, er mwyn rhoi hyder i unigolion fynnu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar lawr gwlad.

Nid yw gwaith hybu a hyrwyddo uniongyrchol Comisiynydd y Gymraeg yn amlwg i'r cyhoedd, a phryderwn fod yna peryg ei weld fel corff rheoleiddio, gyda Thribiwnlys y Gymraeg yn ganolog a'r gwaith hybu a hyrwyddo yn atodol ymylol. Gwelwn le i ddatblygu'r gwaith hyn drwy gynnal fforwm partneriaid Comisiynydd y Gymraeg er mwyn adeiladu ar a datblygu ymgyrchoedd hybu a hyrwyddo mewn meysydd penodol e.e. defnydd cymunedol, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, gwaith plant er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu profiadau ac arfer dda.

**Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am nwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, wrth gadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrrff yn gweithredu yn yr un maes.**

Gwelwn angen gynyddol i sicrhau hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg i gwrdd ag anghenion meysydd polisi amrywiol, gan gynnwys Strategaeth y Gymraeg: miliwn o siaradwyr erbyn 2050, cynlluniau strategaeth ar gyfer 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn, y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ymhlith eraill.

Nodwn yr angen i sicrhau arweiniad cadarn yn y maes, gan sicrhau cydlynu'r cyrrff hyrwyddo sydd eisoes yn weithredol ar lawr gwlad. Mae nifer o fudiadau a sefydliadau eisoes yn weithredol, gan gynnwys y Mentrau Iaith, Cymraeg i Blant, aelodau Mudiadau Dathlu'r Gymraeg, Cymraeg i Oedolion, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Mudiad Meithrin. Er cytunwn fod cynifer o gyrrff yn medru arwain at ddryswch, nodwn y byddai mapio a chydlynu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ar lawr gwlad er mwyn medru datblygu, rhannu, a chydabod yr hyn sydd eisoes yn digwydd ar lawr gwlad. Yn atodol, byddai'n galluogi adnabod ac ymateb i flychau yn y gwaith hybu a hyrwyddo cyfredol.

---

<sup>1</sup> Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad Bil Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## **Enw'r corff: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

**Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Hoffwn glywed yn arbennig am y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff.**

Roedd cynllun laith gyda [ni] ers 1998 ac rydym wedi gweithio i adeiladu ar hyn dros y blynyddoedd. Roedd y gyfundrefn Safonau yn estyniad o'r cynllun i ni. Mae llawer o'r gofynion sydd yn y Safonau yn debyg i beth yr oeddwn wedi ymrwymo i wneud o dan ein cynllun laith ni, er bod rhai newidiadau pwysig a heriol.

Does dim swyddog y Gymraeg penodol gyda [ni] ond mae'r gwaith yn rhan o fy swydd i (Rheolwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus).

Ers dyddiau cynnar y mesur, rydym wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau ynglŷn â'r Safonau, ac wedi cwblhau holiadur y Comisiynydd a RIA Gweinidogion Cymru. Ar ôl i ni dderbyn y Safonau drafft, roedd cyfle i ni ymateb ac i herio rhai o'r Safonau. Wedi trafodaeth gyda swyddogion y Comisiynydd, gwnaethom gais i herio rhai i'r Safonau. Roedd pob un o'n ceisiadau wedi cael ymateb teg a ffafriol, naill ai yn newid y gofyn, dim gosod y Safon, neu ymestyn yr amser i gydymffurfio a'r Safon.

Ar ôl derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, roedd cyfnod o chwe mis i roi trefn ar ein gwaith. Llwyddon ni wneud hyn, ond efallai y byddai mwy o amser wedi bod yn gymorth. Wrth baratoi at y dyddiad gosod, byddai cael mwy o arweiniad am yr hyn oedd angen ei gyhoeddi ar ein gwefan wedi bod yn ddefnyddiol.

Roedd y broses o fynd trwy'r Safonau yn gyfle i ni edych ar ein holl allbwn Cymraeg o'r newydd. Er ein bod wedi gweithredu Cynllun laith ers 1998, roedd yn gyfle i wirio ein bod yn dilyn ein Cynllun ac roedd yn gyfle i ni edrych ar y blychau, os oedd rhai. Roedd rhai o'r Safonau yn heriol, ond teimlaf ein bod wedi eu cyrraedd. Roedd staff y Comisiynydd yn barod iawn i helpu.

Wrth baratoi ar gyfer ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y Safonau, byddai'n fuddiol ac o gymorth i gael templed ar gyfer y gwaith. Hefyd, byddai cyhoeddi codau ymarfer yn fuddiol hefyd.

**Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r balans yn gywir?**

Mae angen sicrhau bod cyfle i hyrwyddo a hybu'r iaith yn effeithiol. Mae'n anodd i gorff fod yn rheoleiddiwr ac yn hyrwyddwr ar yr un pryd. Rydym wedi gweithio gyda'r tîm hybu a hyrwyddo yn llwyddiannus iawn yn y gorffennol ac yn ddiolchgar iawn am eu cydweithrediad.

Mae'n anodd ateb ydy'r balans yn gywir. Efallai y dylai rôl y Comisiynydd fel hyrwyddwr gael ei farchnata mwy, gan law'r rôl rheoleiddio sy'n dod i'r amlwg.

**Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg? Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am bwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, wrth gadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrrff yn gweithredu yn yr un maes.**

Hoffwn weld mwy o waith yn cael ei wneud i helpu'r cyhoedd a mudiadau ddeall y Safonau.

Mae angen hefyd mwy o gyfleoedd i bobl siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol/gweithle/dosbarth nos (os ydynt yn dysgu Cymraeg).

Mae'r trydydd sector a'r gwasanaethau Cymraeg y mae'r mudiadau'n eu darparu yn rhan hanfodol o fywydau pob dydd pobl Cymru, nid yn unig o safbwynt gweithgareddau diwylliannol ond hefyd o safbwynt gwasanaethau holl bwysig ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

Mae llawer o'r cyrff hyn yn hanfodol i oroesiad a thwf y Gymraeg fel iaith gymunedol gan eu bod yn cynnig cyfle i bobl wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn galluogi pobl i gael gwasanaethau yn eu mamiaith, yn ogystal â dathlu'r iaith a'r traddodiadau a gysylltir â hi.

### **Sylwadau pellach**

Wrth baratoi am Bil y Gymraeg, carwn awgrymu dilyn esiampl y gwaith ymgysylltu a hyrwyddo da a wnaethpwyd gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn enwedig drwy ddefnyddio ffilm bywyd Megan.